“Pan welodd Iesu ei fam, felly, a’r disgybl yr oedd yn ei garu yn sefyll yn ei hymyl, meddai wrth ei fam, ‘Wraig, dyma dy fab di.’ Yna dywedodd wrth y disgybl, ‘Dyma dy fam di.’”
(Ioan 19:26)

Dyma’r trydydd ymadrodd a lefarodd Iesu ar y groes. Mae’n ymadrodd rhyfeddol ac yn dangos i ni fod Mab Duw, wrth ufuddhau i’w Dad nefol, wedi cofio’i ddyletswydd i’w fam ddaearol.

Y gwragedd

Mae Ioan yn enwi pedair gwraig oedd yn sefyll yn ymyl croes Iesu (y groes ganol):

Chwaer ei fam

Wrth gymharu’r darn yma gyda Mathew a Marc, mae’n amlwg mai Salome, mam Iago ac Ioan, gwraig Sebedeus oedd chwaer Mair, sef modryb Iesu. Mae’n rhyfeddod ei bod hi yma o gwbl. Daeth hi gyda’i meibion at Iesu i ofyn a fyddent yn cael bod ar ei law chwith a’i law dde pan fyddai’n teyrnasu. Wrth ateb, roedd Iesu wedi eu ceryddu, gan ddangos iddynt fod eu hagwedd yn anghywir. Mae’r ffaith ei bod wrth y groes yn dangos ei bod wedi derbyn y cerydd ac wedi parhau i’w ddilyn.

Mair gwraig Clopas

Yn anffodus, dŷn ni ddim yn gwybod llawer am y Mair yma. Unwaith eto, wrth gymharu â Mathew a Marc, deallwn mai hi oedd mam Iago Fychan a Joses (neu Joseff).

Mair Magdalen

Rŷn ni’n gwybod bod Iesu wedi bwrw saith gythraul allan o’r Mair yma, a’i bod wedi ymlynu wrtho byth ers hynny. Cafodd y fraint o fod y cyntaf i weld y Crist atgyfodedig.

Mair ei fam

Er mai mam oedd hi, mae’n amlwg bod Mair hefyd wedi dod yn ddisgybl i Iesu. Roedd yn dioddef wrth weld ei mab yn dioddef, a hefyd yn dioddef wrth weld ei Harglwydd yn cael ei arteithio. Mae’n debyg bod Joseff ei gŵr wedi marw erbyn hyn. Mae geiriau Iesu’n dangos y gall Duw ddarparu cysur o gyfeiriad

arall pan gollwn ein cysur arferol.

Roedd y gwragedd hyn wedi dangos ffyddlondeb arwrol i Iesu. Pan oedd mwyafrif y disgyblion wedi ffoi a gadael, fe arhoson nhw gyda'r Meistr. Er na allen nhw wneud dim, roedden nhw'n barod i aros a gwylio gydag ef. Roedd ganddynt ffydd arbennig i lynu wrtho, heb weld ymlaen at yr atgyfodiad. (Mae'n debyg eu bod wedi gorfod symud yn bellach i ffwrdd oddi wrth y groes yn nes ymlaen, yn ôl hanesion Mathew a Marc.)

Y Gwaredwr

Roedd gweld ei fam yn dioddef yn rhan o ddioddefaint Iesu. Mae'n meddwl amdani yng nghanol arteithiau eithafol ei gorff; yng nghanol y gwawd a'r dirmyg; yng nghanol y frwydr erchyll yn erbyn uffern a diafol. Nid yn unig mae'n meddwl amdani, ond mae'n darparu ar ei chyfer i'r dyfodol hefyd. Os oedd Joseff wedi marw, Iesu oedd y mab hynaf, ac mae'n siŵr fod Mair yn dibynnu arno yn deuluol ac yn ysbrydol. Mae ef yn darparu gofal teuluol iddi, yn ogystal ag iachawdwriaeth i'w henaid.

Mae'n ei chyflwyno i ofal Ioan, y disgybl annwyl. Ef yw awdur y bedwaredd efengyl (Ioan 21:24), ac mae'n amlwg ei fod yn deall Iesu'n dda a'i fod yn agos ato, heblaw y ffaith ei fod yn gefnder iddo. Dyma'r unig ddisgybl a ddaeth at y groes, a hynny ar ôl iddo adael ei Feistr ar y cychwyn fel y lleill. Mae'n deall geiriau Iesu'n syth ac yn hapus i dderbyn y cyfrifoldeb. Mae'n falch o wasanaethu ei Arglwydd trwy ofalu am ei fam, fel y byddai'n dioddef yn nes ymlaen am y Ffydd ar ynys Patmos.

Mae Iesu'n galw Mair yn 'wraig' yn hytrach na 'mam'. Gallwn feddwl am ddau reswm dros hyn. Mae'n osgoi ei chyfarch fel mam er mwyn peidio ag achosi mwy o boen a loes iddi. Eisoes roedd y cleddyf yn trywanu ei henaid yn ôl proffwydoliaeth Simeon, a doedd Iesu ddim am ei yrru'n ddyfnach. Hefyd mae Iesu yn mynd i'w deyrnas nefol. Mae cysylltiadau daearol yn gorffen. Cyn hir, bydd yn teyrnasu ar angylion a dynion fel Brenin ac Arglwydd.

Mae ei eiriau'n esiampl i ni o ofal plant dros eu rhieni. Gofalodd Dafydd Frenin am ei rieni pan oedd yn ffoi rhag Saul (1 Sam.22:3), ac mae Mab Dafydd yn gofalu am ei fam wrth wynebu ein gelynion mwyaf ni.

Mae hyn hefyd yn arwydd o'i gariad rhyfeddol at y byd fel Gwaredwr. Roedd yn marw dros bob math o bechaduriaid fyddai'n credu ynddo, ac mae'n syndod i weld ei ofal dros ein heneidiau anfawrol ni, er ein bod fel gelynion i Dduw yn ein pechod.